# Cyngor Bro Morgannwg Gwasanaethau Cymdeithasol: Polisi a Gweithdrefn Taliadau Uniongyrchol

| | |
|---|---|
| **Fersiwn rhif:** | **4.0** |
| **Statws:** | **Terfynol** |
| **Math:** | **Cyhoeddus** |
| **Dyddiad Cymeradwyo** | |
| **Cyswllt y Fro:** | **Laura Eddins, Swyddog Polisi a Sicrhau Ansawdd** <br> **leeddins@valeofglamorgan.gov.uk** |

## Cynnwys

1. **Cyflwyniad a Nodau** ..... 2
2. **Cyd-destun Deddfwriaethol** ..... 2
3. **Cyd-destun a Chwmpas** ..... 2
4. **Egwyddorion** ..... 3
5. **Safonau** ..... 4
6. **Rheoli Risg** ..... 5
7. **Y weithdrefn** ..... 7
8. **Cymeradwyo ac Adolygu Polisi** ..... 9

### Fersiynau blaenorol

| Fersiwn | Statws | Disgrifiad | Cymeradwyo |
|---|---|---|---|
| 1 | Wedi ei ddisodli | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |

*Sylwer y gallai'r polisïau a argraffir neu a gaiff eu lawrlwytho fod yn hen. Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau eich bod yn darllen y dogfennau mwyaf diweddar a chyfredol sydd ar gael ar y safle mewnrwyd leol neu Sharepoint.*

## 1. Cyflwyniad a Nodau

Taliadau uniongyrchol yw taliadau a wneir i bobl a fyddai'n gymwys i dderbyn gwasanaeth gan y Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae gan Awdurdodau Lleol ddyletswydd i wneud taliadau arian parod (Taliadau Uniongyrchol) ar gyfer gwasanaethau gofal cymunedol yn dilyn asesiad o'r angen. Bydd Taliadau Uniongyrchol yn cael eu cynnig i bawb sy'n gymwys ac yn cael eu hasesu fel rhai sydd angen gwasanaeth. Bydd y Gwasanaethau Cymdeithasol yn sicrhau bod taliadau uniongyrchol yn cael eu defnyddio i roi'r dewis a'r rheolaeth i bobl dros eu bywydau eu hunain trwy gynnig dewis amgen i wasanaethau gofal cymdeithasol sy'n cael eu darparu gan Gyngor Bro Morgannwg.

Tra'n darparu taliadau uniongyrchol, mae gan yr Awdurdod Lleol ddyletswydd hefyd i ddiogelu ei unigolion o dan Ran 7 Adran 131(1) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae hwn yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i wneud neu gychwyn ymholiadau y maent yn ystyried sy'n angenrheidiol i benderfynu a yw person mewn perygl, ac i benderfynu ar y camau y dylid eu cymryd, os oes angen gweithredu.

## 2. Cyd-destun Deddfwriaethol

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ('Deddf 2014' o hyn ymlaen) yw'r fframwaith cyfreithiol sy'n dwyn cyfraith gwasanaethau cymdeithasol Cymru ynghyd ac yn ei moderneiddio.

Lluniwyd y polisi a'i weithdrefnau perthnasol gan gyfeirio'n benodol at y dogfennau canlynol, a ddylai, yn ogystal â Deddf 2014 ei hun, fod yn brif bwyntiau cyfeirio i'r rhai y mae angen gwybodaeth bellach arnynt:

- Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2001
- Deddf Plant 1989 (2004)
- Rheoliadau Gofal Cymunedol, Gwasanaethau ar gyfer Gofalwyr a Gwasanaethau Plant (Taliadau Uniongyrchol Cymru) 2003
- Canllawiau Gofal Cymunedol, Gwasanaethau ar gyfer Gofalwyr a Gwasanaethau Plant (Taliadau Uniongyrchol) (Cymru) 2011
- Deddf Gofalwyr a Phlant Anabl 2000
- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Rhan 4, s. 50-53.

## 3. Cyd-destun a Chwmpas

**Beth yw'r amodau ar gyfer derbyn Taliadau Uniongyrchol?**

Rhaid sicrhau bod taliadau uniongyrchol ar gael i bob unigolyn sy'n gymwys i'w derbyn ac sydd eu heisiau oni bai y byddai'n niweidiol i les a llesiant defnyddiwr y gwasanaeth.

Rhaid i'r rhai sy'n derbyn Taliadau Uniongyrchol fod yn 16 oed neu'n hŷn, a bod eu hanghenion wedi'u nodi drwy asesiad llesiant o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Rhaid i unigolyn fod eisiau, ac yn gallu rheoli (gyda chymorth, os oes angen) y Taliad Uniongyrchol. Os yw'r gwasanaeth(au) a brynwyd ar gyfer oedolyn, rhaid i Gyngor Bro Morgannwg fod yn fodlon bod y gwasanaeth a gynigir yn diwallu anghenion y person asesiedig yn effeithiol. Os yw'r gwasanaeth ar gyfer plentyn mewn angen mae'n rhaid i Gyngor Bro Morgannwg fod yn fodlon fod y gwasanaeth yn diogelu lles y plentyn. Rhaid i'r unigolyn ddarparu gwybodaeth a ystyrir yn briodol gan Gyngor Bro Morgannwg.

## 4. Egwyddorion

**Pwy sy'n gymwys am Daliadau Uniongyrchol?**

- Pobl Hŷn
- Pobl Anabl (diffinnir 'anabl' yn Neddf Cydraddoldeb 2010 fel bod â nam corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith sylweddol a hirdymor negyddol ar allu person i wneud gweithgareddau arferol dyddiol).
- Pobl ifanc anabl (rhwng 16 a 17 oed);
- Gofalwyr (gan gynnwys gofalwyr 16 i 17 oed);
- Unrhyw berson sy'n gyfrifol am blentyn anabl;
- Pobl anabl sydd â chyfrifoldeb rhiant dros blentyn;
- Person penodedig 'addas' sy'n derbyn ac yn rheoli taliadau uniongyrchol ar ran unigolyn sydd heb allu i gydsynio i'r taliadau uniongyrchol yn cael eu gwneud.

Ni fydd pobl sydd â chyfrifoldeb rhiant dros blentyn anabl yn parhau i dderbyn Taliadau Uniongyrchol i brynu gwasanaethau sy'n bodloni anghenion y plentyn hwnnw unwaith iddo gyrraedd 18 oed. Fodd bynnag, os ydynt yn mynd i barhau yn eu rôl ofalgar, efallai y bydd ganddynt hawl i dderbyn Taliadau Uniongyrchol yn eu hawl eu hunain i'w cefnogi yn eu rôl ofalgar ac i'w helpu i gynnal eu hiechyd a'u lles eu hunain. Byddai hyn yn amodol arnynt yn cael asesiad o'u hanghenion eu hunain a byddai'n rhan o'r trefniadau pontio a reolir o'r Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc i'r Gwasanaethau Oedolion.
Ar y llaw arall, gall y person ifanc ei hun ysgwyddo'r cyfrifoldeb am eu trefniadau Taliadau Uniongyrchol eu hunain pan fyddant yn cyrraedd 18 oed. Rhaid i weithiwr cymdeithasol y person ifanc gynghori'r tîm Taliadau Uniongyrchol ynghylch a yw'r oedolyn ifanc yn gallu rheoli'r Taliadau Uniongyrchol ei hun neu a fyddai angen "person addas". Mae person penodedig 'addas' yn gallu derbyn a rheoli taliadau uniongyrchol ar ran unigolyn sydd heb allu i gydsynio i'r taliadau uniongyrchol yn cael eu gwneud

**Pwy nad ydyn nhw'n gymwys am Daliadau Uniongyrchol?**

- Troseddwyr ar orchymyn cymunedol, neu ddedfryd o garchar wedi'i gohirio, o dan Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003, sy'n cynnwys gofyniad i dderbyn triniaeth am ddibyniaeth ar gyffuriau neu alcohol
- Troseddwr ar orchymyn adsefydlu cymunedol neu orchymyn cosbi ac adsefydlu cymunedol o dan Ddeddf Pwerau Llysoedd Troseddol (Dedfrydu) 2000, sy'n cynnwys gofyniad i dderbyn triniaeth am ddibyniaeth ar gyffuriau neu alcohol
- Troseddwyr a ryddhawyd o'r carchar ar drwydded dan Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1991, Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003 neu Ddeddf Troseddu (Dedfrydau) 1997 yn amodol ar ofyniad ychwanegol i gael triniaeth am ddibyniaeth ar gyffuriau neu alcohol
- Unigolion sy'n destun darpariaethau cyfatebol o dan ddeddfwriaeth cyfiawnder troseddol yr Alban. Mae hyn yn cynnwys unigolion sy'n destun Gorchmynion Gwneud Iawn â'r Gymuned (GGIG) o dan Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Thrwyddedu (Yr Alban) 2010, lle mae'r GGIG yn cynnwys gofynion iechyd meddwl, a thriniaeth alcohol neu gyffuriau.

## 5. Safonau

Ar gyfer pa wasanaethau y gellir defnyddio taliadau uniongyrchol?

Gellir defnyddio Taliadau Uniongyrchol i brynu cymorth er mwyn diwallu anghenion asesiedig Defnyddiwr y Gwasanaeth, er enghraifft:

- Cymorth personol o fewn y cartref (cynorthwyydd personol, y cyfeirir ato'n aml fel 'PA', fel person a gyflogir i ddarparu gwasanaeth uniongyrchol i unigolyn neu grŵp bach).
- Gwyliau byr gan gynnwys cyfnodau o ofal seibiant a seibiant i ofalwyr;
- Gweithgareddau adloniant a hamdden;
- Cyfarpar i gynorthwyo gyda thasgau byw dyddiol;
- Gwasanaethau ailalluogi (nid i'w gymysgu â gwasanaethau adsefydlu cymunedol a ddarperir gan yr Awdurdod Iechyd).

**Ni ellir defnyddio Taliadau Uniongyrchol i brynu:**

- Gwasanaethau a gomisiynwyd eisoes gan y Fro, e.e., seibiant gyda Gweithredu Dros Blant, neu Faterion Eiriolaeth.
- Gwasanaethau cysylltiedig ag iechyd e.e. gofal nyrsio neu ffisiotherapi;
- Gwasanaethau tai e.e. talu rhent am lety;
- Gofal preswyl tymor hir neu ofal mewn cartref nyrsio
- Ni ellir gwneud Taliad Uniongyrchol i ddarparu llety preswyl am gyfnod parhaus o fwy nag 8 wythnos, ac mewn unrhyw gyfnod o 12 mis.

## 6. Rheoli Risg

Gall unigolion ddefnyddio cyfuniad o Daliadau Uniongyrchol a gwasanaethau'r Cyngor yn ôl yr angen asesedig. Mae hefyd yn golygu eu bod yn gallu defnyddio'r arian i gyflogi eu cynorthwyydd(wyr) personol eu hunain, os ydynt yn gymwys.

1. Mae'r Rheoliadau'n nodi bod gan Gyngor Bro Morgannwg hawl i wneud Taliadau Uniongyrchol o unrhyw gyfraniad y mae Defnyddwyr Gwasanaethau neu ofalwyr wedi eu hasesu fel rhai sydd angen eu talu, o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Rhan 4, s. 50-53.

2. Yn gyffredinol, mae'r rheoliadau yn atal defnyddio Taliadau Uniongyrchol i sicrhau'r gwasanaeth gan bartner (h.y. yr aelod arall o gwpl priod neu ddi-briod) neu berthynas agos sy'n byw yn yr un aelwyd. Perthynas agos yn y cyd-destun hwn yw rhiant, rhiant-yng-nghyfraith, modryb, ewythr, taid, mab, merch, mab-yng-nghyfraith, merch-yng-nghyfraith, llys-fab neu ferch, brawd, chwaer neu briod neu bartner unrhyw un o'r rhain.

3. Os yw'r gwasanaeth(au) a brynwyd ar gyfer oedolyn, rhaid i Gyngor Bro Morgannwg fod yn fodlon bod y gwasanaeth a gynigir yn diwallu anghenion ac yn gwarchod lles y person asesiedig yn effeithiol.

4. Os yw'r gwasanaeth ar gyfer plentyn mewn angen, rhaid i'r unigolyn ddarparu gwybodaeth i ddangos tystiolaeth o ddefnyddio taliadau Uniongyrchol yn unol â chynllun gofal y plentyn. Rhaid i'r Cyngor fod yn fodlon bod y gwasanaeth yn diogelu lles y plentyn.

5. Rhaid cwblhau gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG) ar gyfer pob gweithiwr Taliadau Uniongyrchol. Bydd y Cyngor yn cydlofnodi'r cais GDG a bydd disgwyl i'r Cynorthwyydd Personol rannu'r canlyniad gyda'r Cyngor.

Rhaid i bob cynorthwyydd personol sy'n cael eu cyflogi i ddarparu gofal neu gymorth gael gwiriad gyda'r GDG. Os nad yw'r ymgeisydd am Daliadau Uniongyrchol yn cytuno i'r gwiriad hwn, gall Cyngor Bro Morgannwg benderfynu na fyddai'n briodol gwneud Taliadau Uniongyrchol. Hyd nes y bydd y gwiriad wedi'i wneud, bydd defnyddwyr Taliadau Uniongyrchol yn cael eu cynghori i dderbyn gwasanaethau gan y Gwasanaethau Cymdeithasol neu i gontractio ag asiantaeth gofrestredig am wasanaethau i ddiwallu eu hanghenion asesedig.

Pan fydd tystysgrifau GDG yn dangos efallai na fyddai'r ymgeisydd yn addas i weithio gyda phlant neu oedolion, bydd y Cyngor yn ystyried pob achos cyn cynghori'r cyflogwr. Dydy gwiriad GDG clir ddim yn golygu fod yr ymgeisydd o reidrwydd yn addas oherwydd gallai fod rhesymau sy'n eu gwneud yn anaddas na fyddai'n cael ei ddangos ar dystysgrif GDG. Dylid cynghori cyflogwyr yn gryf i dderbyn geirda am gynorthwywyr personol posibl.

Bydd angen i Gyngor Bro Morgannwg fod yn fodlon nad yw darpar gynorthwyydd personol wedi ei gynnwys ar y Rhestr Wahardd (a ddelir gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd) neu restr Diogelu Oedolion yr Adran Iechyd.
Os yw Cyngor Bro Morgannwg yn derbyn gwybodaeth y gall unigolyn fod mewn perygl neu niwed gan berson sy'n cael ei gyflogi i ddarparu gofal, fe allai Taliadau Uniongyrchol gael eu hatal yn ystod ymchwiliad i'r amgylchiadau a gallai'r unigolyn hwnnw gael ei gyfeirio at y Rhestr Wahardd.

6. Mae Cyngor Bro Morgannwg wedi ymrwymo'n llawn i ystyried cynnwys pob grŵp unigol i dderbyn Taliadau Uniongyrchol er mwyn iddynt gymryd rhan lawn yn narpariaeth y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt, ac i'w rheoli.

7. Caiff pob unigolyn wybod am Daliadau Uniongyrchol mewn ffordd sy'n ystyrlon iddyn nhw. Rhaid i Gyngor Bro Morgannwg sicrhau y bydd pob unigolyn yn cael cymorth ym mha bynnag ffordd angenrheidiol iddyn nhw wneud penderfyniad gwybodus. Byddan nhw'n cael gwybod am y gwasanaethau cymorth sydd ar gael iddyn nhw ac ni fydd disgwyl iddyn nhw dderbyn Taliadau Uniongyrchol os nad ydyn nhw eisiau.

8. Mae angen i Gyngor Bro Morgannwg fod yn fodlon bod person sy'n darparu cymorth i unigolyn yn oedolyn priodol.

## 7. Y weithdrefn

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **1.** | Trafod y cynnig o Daliadau Uniongyrchol os yw'r anghenion asesedig yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd. | Gweithiwr Cymdeithasol/Swyddog Gofal Cymdeithasol | WCCIS | O fewn 7 diwrnod gwaith |
| **2.** | 1. Trafodwch y cais am Daliadau Uniongyrchol gyda'r Rheolwr Tîm a/neu Reolwr Ymarferwyr i gadarnhau y bydd Taliadau Uniongyrchol yn diwallu'r anghenion asesedig yn briodol. | Gweithiwr Cymdeithasol/Swyddog Gofal Cymdeithasol | Cais am Wasanaeth WCCIS/CP12 | O fewn 7 diwrnod gwaith |
| **3.** | Cyfeiriwch at y Swyddog Taliadau Uniongyrchol os oes gan yr unigolyn ddiddordeb mewn taliadau uniongyrchol. Mae manylion unigolion sydd â diddordeb hefyd yn cael eu trosglwyddo i'r sefydliad cymorth. | Gweithiwr cymdeithasol/Swyddog Datblygu Taliadau Uniongyrchol (SDTU) | Ffurflen atgyfeirio taliadau uniongyrchol/DP1 | O fewn 7 diwrnod gwaith |
| **4.** | Mewn achosion sy'n briodol ar gyfer Taliadau Uniongyrchol, ond lle nad yw'r cynllun yn cael ei fanteisio arno, rhaid esbonio hyn yn llawn wrth Reolwr y Tîm | Rheolwr Achos | WCCIS | O fewn 7 diwrnod gwaith |
| **5.** | Esboniwch oblygiadau'r cyfrifoldebau a'r rhwymedigaethau hyn i'r defnyddiwr gwasanaeth. Dechreuir cyfarfod gyda'r darparwr cymorth | Darparwr Cymorth | Trafodaeth | O fewn 7 diwrnod gwaith |
| **6.** | Os caiff y cais am Daliadau Uniongyrchol ei gymeradwyo, bydd hyn yn rhan o'r Cynllun Gofal. | Rheolwr Gofal | Cynllun Gofal | O fewn 7 diwrnod gwaith |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **7.** | Cytuno ar lefel a manylion eraill y Taliadau Uniongyrchol. | Y Gweithiwr Cymdeithasol, Rheolwr Tîm a'r SDTU | Cynllun Gofal/Cynllun Plentyn Mewn Angen | O fewn 7 diwrnod gwaith |
| **8.** | Ar ôl derbyn CP12 awdurdodedig (ar gyfer Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc) neu ffurflen awdurdodi (ar gyfer Gwasanaethau Oedolion) a Chynllun Gofal yn nodi'r oriau Taliadau Uniongyrchol arfaethedig, dylid rhoi llythyr y cytundeb i'r unigolyn os yw'n dymuno bwrw ymlaen.<br>Darparwr Cymorth i drefnu cyfarfod â'r unigolyn. | SDTU<br><br><br><br><br><br><br>Darparwr Cymorth | Llythyr | O fewn 7 diwrnod gwaith |
| **9.** | Bydd y darparwr cymorth yn helpu gyda'r broses recriwtio ar gyfer cyflogi cynorthwyydd personol os oes angen. | Darparwr Cymorth | | Cyn cyflogi Cynorthwyydd Personol |
| **10.** | Pan fydd cynorthwyydd personol wedi ei recriwtio a chyn i'w gwaith ddechrau mae'n rhaid cyflawni gwiriad GDG. | SDTU | Ffurflen GDG | Cyn cychwyn y Taliadau Uniongyrchol |
| **11.** | Dychwelwch y cytundeb a lofnodwyd i'r Swyddog Taliadau Uniongyrchol. | Defnyddiwr Gwasanaeth | Cytundeb | O fewn 7 diwrnod gwaith |
| **12.** | Adolygiad o gynnydd unwaith y mae Taliadau Uniongyrchol wedi bod ar waith. | Gwasanaeth Defnyddiwr a Gweithiwr Cymdeithasol | Adolygu | Ar ôl mis o weithredu |
| **13.** | Cynnal gwiriad ymweliad/cofnod defnyddiwr newydd. | SDTU | Ewch i neu'r diweddariad ffôn. | Ar ôl 3 mis o weithredu. |
| **14.** | Cynnal monitro ariannol rheolaidd | SDTU | Gwaith papur DP | O leiaf yn flynyddol. |

## 8. Cymeradwyo ac Adolygu Polisi

| | |
|---|---|
| Cymeradwywyd y Polisi gan: | |
| Dyddiad Cymeradwyo: | |
| Amlder Adolygu: | Bob blwyddyn |
| Dyddiad Adolygu'r Polisi: | |
| Swyddog(ion) Cyfrifol: | |